

## **FFORWM DERBYN SIR BENFRO**

### **CYFANSODDIAD A CHYLCH GORCHWYL**

#### **1. Cyffredinol**

Mae Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003, yn mynnu bod pob awdurdod addysg yng Nghymru yn sefydlu fforwm derbyn (y cyfeirir ato yma wedi hyn fel 'y Fforwm'). Gellir diwygio cyfansoddiad a chylch gorchwyl y Fforwm ar unrhyw adeg er mwyn cydymffurfio â newidiadau i'r ddeddfwriaeth gynradd neu'r rheoliadau.

#### **2. Swyddogaeth y Fforwm**

Mae gan Fforymau Derbyn rhan allweddol i sicrhau trefniadau derbyn teg sy'n hyrwyddo cydraddoldeb cymdeithasol. Rhaid i Fforymau Derbyn weithio yn unol a'r Côd Derbyn i Ysgolion a rhaid i awdurdodau derbyn pob ysgol a gynhelir yn Sir Benfro rhoi ystyriaeth i unrhyw gyngor a rhoddir gan y Fforwm. Bydd y Fforwm yn darparu sianel gyfathrebu ffurfiol rhwng Cyngor Sir Penfro, yr ysgolion a gynhelir ganddo, awdurdodau derbyn eraill yn Sir Benfro ac eraill sydd â diddordeb mewn derbyniadau ysgolion yn rhanbarth Sir Benfro ar y cyfryw faterion sy'n ymwneud â derbyniadau ysgolion ag y gwêl Cyngor Sir Penfro yn dda ac a fydd, o bosibl, yn cael eu rhagnodi mewn rheoliadau. Bydd y Fforwm yn arbennig yn:

- a) ystyried pa mor dda y mae trefniadau derbyn cyfredol ac arfaethedig (gan gynnwys dalgylchoedd, nifer derbyniadau a meini prawf gordanysgrifio) yn bodloni lles plant a rhieni yn Sir Benfro
- b) hyrwyddo cytundeb ar faterion sy'n ymwneud â derbyniadau
- c) ystyried pa mor gynhwysfawr a hygyrch yw'r llenyddiaeth a'r wybodaeth am dderbyniadau i rieni sy'n cael eu cynhyrchu gan bob awdurdod derbyn yn ardal y fforwm trwy'r prospectws cyfansawdd a gyhoeddir bob blwyddyn
- d) ystyried pa mor effeithiol yw unrhyw gyd-drefniadau derbyn arfaethedig
- e) ystyried ym mha ffordd y gellid gwella prosesau derbyn a'r cyswllt rhwng derbyniadau gwirioneddol a rhif y derbyniadau a gyhoeddwyd
- f) monitro derbyn plant sy'n cyrraedd ardal yr awdurdod y tu allan i'r rownd derbyn arferol, gyda golwg ar hyrwyddo trefniadau ar gyfer dosbarthu'r cyfryw blant yn deg ymhlith ysgolion lleol gan gymryd i ystyriaeth flaenoriaethau'r rhieni yn unol ag adran 86(1) y Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998
- g) hyrwyddo trefniadau derbyn effeithiol ar gyfer plant sydd ag anghenion addysgol ychwanegol a/neu anableddau, plant Sipsiwn Teithwyr, plant sy'n derbyn gofal, plant sydd wedi'u heithrio o'r ysgol, troseddwy'r ifanc, a'r rhai hynny sydd yn annodd i'w lleoli neu sydd â ymddygiad heriol
- h) ystyried unrhyw faterion derbyn eraill nas crybwyllir uchod ac yn arbennig y rhai hynny sy'n ymwneud â "theuluoedd o ysgolion".

- i) Ystyried dyddiadau derbyn ceisiadau a dyddiadau cynnigion addas am derbyniadau ysgolion cynradd a uwchradd o fewn eu ardaloedd trwy ymgynghori a awdurdodau cyfagos
- j) Monitro'r cydymffurfio gyda'r Côd Derbyn i Ysgolion a'r Côd Apelau Derbyn i Ysgolion a deddfwriaeth perthnasol.

### 3. Aelodaeth

Yr aelodau "craidd" canlynol a benodwyd gan y Cyngor Sir fydd aelodau'r fforwm:

GRŴP	YSTOD	NIFER	ENWEBWR
Aelodau neu Swyddogion yr Awdurdod	1-5	5	Awdurdod
Aelodau a enwebwyd gan yr Eglwys yng Nghymru	1-3	2	Awdurdod Esgobaethol
Aelodau a enwebwyd gan yr Eglwys Babyddol	1-3	1	Esgobaeth
Pennaeth neu Lywodraethwr (nid llywodraethwyr a benodwyd gan y Cyngor Sir) o bob grŵp o ysgolion.	1-3 o bob grŵp (i) Cynradd Sirol a RhW (ii) CG (iii) Sefydledig	3 1 0	Awdurdod drwy Grwpiau Prifathrawon
Cynrychiolwyr Rhiant Lywodraethwyr	1-3	2	Rhiant Lywodraethwyr

### 4. Ethol Aelodau'r Fforwm

- (a) cynrychiolwyr Cyngor Sir Penfro yn unol â'r cyfansoddiad
- (b) cynrychiolwyr Esgobaethol gan yr Awdurdod Esgobaethol priodol
- (c) cynrychiolwyr sy'n Brifathrawon neu'n Llywodraethwyr ar sail enwebiadau a dderbyniwyd gan grwpiau prifathrawon cynradd a *PASH*
- (d) cynrychiolwyr Rhiant Lywodraethwyr i fod yn rhai a etholwyd gan riant lywodraethwyr i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Trosolwg ac Archwilio Plant a Theuluoedd

### 5. Tymor yn y Swydd

Caiff pob aelod craidd ei benodi am gyfnod heb fod yn hwy na phedair blynedd. Gellir ail-ethol aelodau.

### 6. Symud Aelodau

Bydd aelodau'r Fforwm yn peidio â bod yn aelodau o'r Fforwm pan fyddant yn peidio â dal y swydd y buont yn gymwys i'w hethol iddi.

Bydd aelodau'r Fforwm a enwebwyd gan awdurdod esgobaethol yn peidio â bod yn aelodau os bydd y corff a'u henwebodd yn hysbysu ysgrifennydd y Fforwm eu bod o'r farn nad ddylai'r aelod bellach fod yn aelod o'r Fforwm.

Bydd symud aelodau yn cydymffurfio â darpariaethau Rheoliadau Addysg (Fforymau Derbyn) (Cymru) 2003.

## **7. Cyfarfodydd y Fforwm**

Yn ôl gofynion y Rheoliadau, rhaid i'r Fforwm gyfarfod o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Gall yr Ysgrifennydd, ar ôl ymgynghori â'r cadeirydd, alw cyfarfodydd ychwanegol.

Dylid rhoi rhybudd ysgrifenedig i'r aelodau, o leiaf saith niwrnod gwaith cyn cyfarfod o'r Fforwm, ac eithrio mewn achos brys.

Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon agenda a dogfennau perthnasol i'r cyfarfod at yr aelodau o leiaf saith niwrnod cyn i'r Fforwm gyfarfod.

Bydd cworwm y Fforwm yn 40% o'r aelodau, wedi eu talgrynnu i'r cyfanrif agosaf.

## **8. Ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd**

Y Cadeirydd fydd yn llywyddu cyfarfodydd y Fforwm. Bydd y Fforwm yn ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yn eu cyfarfod cyntaf, a bob dwy flynedd wedi hynny. Bydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn gwasanaethu am gyfnod o ddwy flynedd a gellir eu hail-ethol. Bydd ysgrifennydd y Fforwm yn gweithredu fel Cadeirydd yn ystod y rhan honno o'r cyfarfod pryd y caiff y Cadeirydd ei ethol.

## **9. Ysgrifennydd y Fforwm**

Y Cyfarwyddwr Addysg neu ei enwebai fydd Ysgrifennydd y Fforwm – yn amodol ar gymeradwyaeth y Fforwm.

## **10. Pleidleisio**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl i Fforymau Derbyn ddod i gonsensws ar fater y cyngor a roddir i awdurdodau derbyn. Os digwydd bod angen pleidlais, bydd penderfyniadau yn cael eu gwneud gan fwyafrif syml yr aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio. Os digwydd pleidlais gyfartal, caiff y cadeirydd bleidlais derfynol er mwyn pennu'r mater.

## **11. Datgan Diddordeb**

Rhaid i aelod sydd â diddordeb personol mewn mater ac sy'n bresennol mewn cyfarfod o'r Fforwm pryd y bydd y mater hwnnw yn cael ei drafod ddatgelu bodolaeth a natur y diddordeb hwnnw wrth y cyfarfod a hynny ar ddechrau'r cyfarfod neu ar yr adeg pan ddaw'r diddordeb yn amlwg. Dylai'r aelodau ystyried eu hunain fel rhai sydd â diddordeb personol mewn unrhyw fater os, wrth ei drafod, y gellir yn rhesymol ystyried ei fod yn effeithio ar eu lles neu eu sefyllfa ariannol hwy eu hunain, perthynas agos neu swydd fusnes sy'n cael ei chyflawni gan y cyfryw berson. Bydd y Fforwm yn penderfynu pa un ai a ddylid caniatáu i aelod, wedi iddo/iddi ddatgan diddordeb, gymryd rhan yn y drafodaeth ar y mater dan sylw.

## **12. Cyfrinachedd**

Bydd busnes y Fforwm yn cael ei drafod yn breifat. Ar rai achlysuron o bosibl, bydd gwybodaeth gyfrinachol ei natur yn cael ei rhoi i aelodau'r fforwm er mwyn eu cynorthwyo i ddeall y mater dan sylw. Rhaid i aelodau'r Fforwm barchu cyfrinachedd gwybodaeth o'r fath.

## **13. Is-Bwyllgorau**

Gall y Fforwm sefydlu is-bwyllgorau yn ôl yr angen i drafod materion penodol a bydd yn pennu aelodaeth, cylch gorchwyl a gweithdrefnau'r cyfryw is-bwyllgorau fel y bo'n briodol. Bydd y Fforwm yn ystyried gwaith y cyfryw is-bwyllgorau ac yn gwneud argymhellion fel y bo'n briodol.

## **14. Presenoldeb Swyddogion mewn Cyfarfodydd**

Bydd gan Swyddogion y Cyngor Sir hawl i fynychu unrhyw gyfarfod o'r Fforwm er mwyn rhoi cyngor.

## **15. Adrodd**

Bydd y Fforwm yn paratoi adroddiad blynyddol o'i weithgareddau ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd hwn yn unol a'r ffurf a rhoddwyd yn y Côd Derbyn i Ysgolion a chaiff ei gyhoeddi erbyn 30ain Tachwedd yn dilyn diwedd pob blwyddyn academiaidd.

## **16. Treuliau**

Bydd yr Awdurdod yn cwrdd â holl dreuliau'r Fforwm ac yn eu gosod yn erbyn y gyllideb Derbyniadau a Chynllunio Lleuedd.

Bydd yr Awdurdod yn ad-dalu treuliau'r aelodau fel a ganlyn

- costau gofal plant neu warchod plant (heblaw am yr hyn a gyflawnir gan breswlydd a pherson cyfrifol yn y cyfeiriad cartref) i'w had-dalu ar raddfa sy'n gyfwerth â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol (ICC) cyffredinol.
- ad-delir hefyd drefniadau gofalu am unigolyn dibynnol (fel yr uchod) ar raddfa sy'n gyfwerth â'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol (ICC) cyffredinol.
- cefnogaeth i'r aelodau hynny nad yw'r Gymraeg/Saesneg yn iaith gyntaf iddynt (cyfieithiadau);
- costau teleffon, llungopïo, deunydd ysgrifennu ac ati;
- costau teithio i'w talu ar raddfeydd cytunedig y unol â pholisi Cyngor Sir Penfro.

Rhaid cyflwyno hawliadau ar ffurflen hawlio treuliau swyddogol Cyngor Sir Penfro a'i rhoi i Ysgrifennydd y Fforwm. Lle bo hynny'n briodol, dylid cynnwys talebau gyda hawliadau ad-dalu treuliau.

### **17. Newid y Cyfansoddiad a'r Cylch Gorchwyl**

Ni roddir ystyriaeth mewn cyfarfod i unrhyw welliant mewn perthynas â Chyfansoddiad a Chylch Gorchwyl Fforwm Derbyniadau Sir Benfro oni fydd 28 diwrnod o rybudd wedi ei roi ynghylch y cyfarfod hwnnw ac ni chaiff y diwygiad hwnnw ei dderbyn oni cheir cymeradwyaeth dwy ran o dair o'r aelodau sy'n bresennol ac yn pleidleisio.

Gan mai er mwyn bodloni gofynion statudol y ffurfiwyd y Fforwm, gall hefyd fod angen diwygio'r Cyfansoddiad a'r Cylch Gorchwyl o bryd i'w gilydd er mwyn cydymffurfio â newidiadau yn y gofynion statudol.